



Chwilio am Aur


Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Roderick Hunt

Alex Brychta



Rhagor o
Dylluanod




DRAKE



Roedd gan fam Wilma freichled swyndlws.
Breichled aur oedd hi.
Roedd deg swyndlws arni.
Swyndlysau aur oedden nhw hefyd.
“Mae’n freichled hardd,” meddai Dids.




Roedd mam Wilma yn
golchi'i dwylo wrth y sinc.
Roedd hi'n gwisgo'r freichled.
Daeth un o'r swyndlysau'n rhydd, ac
aeth i lawr twll y plwg.




Roedd mam Wilma wedi cynhyrfu'n arw.
"Gobeithio y medra i gael y swyndlws
allan o dwll y plwg," meddai.
Rhedodd Dids i nôl ei fam.
"Gall hi gael y swyndlws allan," meddai.



Rhoddodd mam Dids bowlen blastig o dan y sinc. Edrychodd pawb yn y bowlen.
“Dyma’r swyndlws,” meddai mam Dids.
“Ych!” meddai Wilma. “Mae baw arno.”
Roedd mam Wilma yn falch o’i gael yn ôl.




Cafodd mam Dids hyd i rywbeth arall.
“Ych!” meddai. “Edrychwch ar hwn!”
Hen gwm cnoi Wilff oedd o.
“Am le i sodro hen gwm cnoi!”
meddai mam Wilma.



Aeth y plant i ystafell wely Cad.
Roedd tri phaced o gwm cnoi gan Wilff.
Rhoddodd o gwm cnoi i Dids.
“Fy ystafell wely i ydi hon,” meddai Cad, “felly
gwylia ble wyt ti’n rhoi'r hen gwm cnoi.”




Yn sydyn, dechreuodd yr allwedd hud
ddisgleirio.
Aeth yr hud â'r plant ar antur newydd.
“Help!” meddai Wilff. “Wn i ddim
beth i'w wneud efo'r hen gwm cnoi.”



Aeth yr hud â'r plant yn ôl mewn amser.
Aeth â nhw at afon.
Roedd bachgen a geneth yn chwilio am
rywbeth yn y dŵr.

Roedd gan y bachgen a'r eneth badelli mawr.
Roedden nhw'n codi cerrig bychain
o'r afon.
Yna roedden nhw'n chwilio am ddarnau bychain
bach o aur yng ngwaelod y padelli.




Roedd y bachgen a'r eneth yn flin
pan welson nhw'r plant.

Doedden nhw ddim eisiau iddyn nhw chwilio am aur.

"Ni biau'r rhan hon o'r afon," gwaeddon nhw.

"Ewch rywle arall i chwilio am aur!"




Rhoddodd Wilff gwm cnoi i'r bachgen a'r eneth.

Doedden nhw erioed wedi gweld gwm
cnoi o'r blaen.

Wydden nhw ddim beth i'w wneud efo fo.

"Cnowch o," meddai Wilff. "Peidiwch â'i lyncu."



Enw'r bachgen oedd Luc ac
enw'r ferch oedd Alys.

Roedden nhw'n byw mewn caban ger yr afon.
Roedd Alys a Luc yn chwilio am aur bob dydd.
Roedd yn fywyd caled.

Doedd y teulu ddim wedi dod o hyd i aur,
ac roedd Luc ac Alys eisiau bwyd
drwy'r adeg.


"Mae chwilio am aur yn galed," meddai Luc.
"Ydych chi eisiau'n helpu ni?"



Helpodd y plant nhw i chwilio am aur.
Helpodd Wilff a Cad dad Luc.
Helpodd Wilma a Dids Alys a Luc.
“Dwi’n falch fod gwm cnoi gen i,” meddai Wilff.
“Mae hyn yn waith caled.”




Roedd hi’n oer yn yr afon, a
blinodd y plant yn fuan.
“Rydan ni’n gwneud hyn bob dydd,”
meddai Luc, “ac rydan ni’n dal heb gael hyd
i aur.”



Yn sydyn, gwaeddodd tad Luc.

“Aur!” bloeddiodd. “Rydan ni wedi dod o hyd i aur.”

Cododd dalp mawr o aur a neidio i fyny ac i lawr. Rhedodd pawb i weld.



Edrychodd pawb ar y talp o aur.

Teimlai'n drwm ac yn oer.

“Hwrê!” gwaeddodd mam Luc. “Rydan ni wedi dod o hyd i aur o'r diwedd. Roeddwn i'n meddwl na fassen ni byth yn llwyddo.”



Aeth y plant i'r dref gyda
thad a mam Luc.

Roedd Luc ac Alys yn llawn cyffro.


“Cawn werthu'r aur,” medden nhw, “a
chawn brynu bwyd.”

“Cawn brynu dillad newydd,” meddai mam Luc.

“A rhaw newydd,” meddai tad Luc.

“A gwm cnoi,” meddai Luc.

“Be ydi gwm cnoi?” gofynnodd tad Luc.




Roedd dynion yn aros ar y ffordd.
“O na!” meddai tad Luc. “Lladron!
Byddan nhw’n dwyn ein talp o aur.
Be wnawn ni?”

Cafodd Wilff syniad.
Siaradodd efo’r plant i gyd.
“Rhowch eich gwm cnoi i mi,” meddai.
“Rhowch yr hen gwm cnoi i gyd i mi, a
rhowch y talp o aur i mi hefyd.”




Roedd y lladron eisiau aur a phres.
“Teulu tlawd ydan ni,” meddai tad Luc.
“Does gynnon ni ddim pres
a dydyn ni ddim wedi cael hyd i aur.”


Chwiliodd y lladron ym mhobman.
Archwilion nhw bawb.
“Dim ond plant ydan ni,” meddai Alys.
“Does gynnon ni ddim aur a
does gynnon ni ddim pres.”



Methodd y lladron â chael hyd i'r aur.
Gadawson nhw i bawb fynd.
“Hwrê!” meddai Luc.
“Gwm cnoi Wilff achubodd yr aur.”
“**Hwnna** ydi'r gwm cnoi?” gofynnodd tad Luc.



Cafodd tad a mam Luc
bres am yr aur.
“Ca i ffrog newydd,” meddai Alys.
“A cha i sgidiau newydd,” meddai Luc.




Prynodd tad Luc drol newydd.
Roedd yn fwy na'r hen un.
"Mae angen trol newydd," meddai Luc.
"Mae cymaint i'w gario adref."


Helpodd y plant nhw i roi
popeth yn y drol.
"Mae hyn yn waith caled hefyd," meddai Cad.
"Dydi anturiaethau ddim yn hwyl i gyd."



Aeth pawb yn ôl at yr afon.
Gwisgodd y teulu'r dillad newydd.
Chwiliodd Wilma a Cad am aur.
"Gobeithio y cawn ni beth," meddai Wilma.
"Baswn i wrth fy modd yn cael hyd i aur."



Yn sydyn, gwelodd Cad smotyn bach
melyn yn y badell.
Roedd hi wedi cael hyd i aur.
"Mae'n fychan iawn," meddai.
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.




Aeth yr hud â'r plant adref.

Edrychodd Cad ar yr aur.

"Mae'n edrych yn fychan ofnadwy rŵan," meddai.

"Mae'n edrych fel smotyn o lwch!"

Yn sydyn, dyna Dids yn tisian.




Chwythodd y smotyn bach o aur
oddi ar law Cad.

Chwythodd ar y carped.

"Welsoch chi i ble'r aeth o?" gofynnodd Cad.

"O na! Mae'n ddrwg gen i!" meddai Dids.



Bu'r plant yn chwilio a chwilio.

Fedren nhw ddim cael hyd i'r mymryn bach
o aur.

"Welwn ni o byth eto," meddai Cad.

"O na!" meddai pawb.

Chwilio am Aur



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 7



Rhagor o
Dylluanod

Stori gan
Roderick Hunt

Luniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws

Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaid
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1995
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-306-7



9 790861 743062

ISBN 0 86 174306 7

DRAKE